# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

COFNODION Cyfarfod Cyngor, Nos Fawrth 13/10/2020 ar Zoom am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Catrin Roberts (Cad) | Mared Llywelyn Williams | Gruffydd Williams | Caren Jones | Rhys Tudur |
| Sharon Williams | Lleucu Jones | Janice Evans | Pat Humphreys (Clerc) | |

1. **Ymddiheuriadau.**
   Guto Williams, Alaw Llewelyn Roberts, Rhys Llewelyn, Gwynfor Jones, Cai Rees Jones, Carys Roberts, Arfon Hughes

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol**
   Dim.

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Zoom 24/09/2020
   Penderfyniad: derbyn yn gywir
   Cynnig: Mared Llywelyn Williams Eilio: Rhys Tudur

4. **Unrhyw Fater Brys**
   Cafwyd cais gan Gadeirydd yr Is-bwyllgor Ariannol i aelodau'r Is-bwyllgor fynychu hyfforddiant Cyllid Llywodraeth Leol sydd yn cael ei gynnig gan Un LLais Cymru drwy mis Hydref.
   Penderfyniad: Y clerc i drefnu hefo Un Llais bod yr hyfforddiant ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ac yna i drefnu amser a dyddiad i bawb fynychu.
   Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Catrin Roberts

5. **Swydd Cadeirydd ac Is-gadeirydd**
   Fe etholwyd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd i'w swyddi ym mis Hydref 2019 ac felly mae blwyddyn wedi pasio ers hynny bellach, mae'r ddwy yn fodlon cario mlaen tan y Pwyllgor Blynyddol ym mis Mai 2021 pryd y dylid ethol swyddogion newydd fel rheol.
   Penderfyniad: Y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd i barhau yn eu swyddi tan mis Mai 2021.
   Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Rhys Tudur

6. **Cynnig Ail Gartrefi (e-bost dyddiedig 6 Hydref) –** Rhys Tudur
   Yn dilyn derbyn llythyr gan y llywodraeth yn ymateb i'r cynnig gan CTN am fesurau i atal tai rhag mynd o afael pobl lleol y teimlad oedd nad oedd yr ymateb yn ddigonol i ddelio gyda'r broblem ail gartrefi. Nid oes digon o wybodaeth am y Cynllun Cymorth i Brynu a paham nad yw'n cael ei ddefnyddio'n ehangach ac ar ôl trafodaeth fe newidiwyd geiriad y cynnig i:
   1. Cynnig yn galw am Gynllun Cymorth Prynu effeithiol
   2. Cynnig i ymateb i'r Llywodraeth

   Penderfyniad: Pasiwyd y Cynnig.
   Cynnig: Rhys Tudur Eilio: Gruffydd Williams

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Catrin Roberts • 07880 737298

**7. Cynnig Cydberchnogi Tai Gweigion (e-bost dyddiedig 8 Hydref) –** Rhys Tudur
Cafwyd esboniad gan Rhys Tudur o'r hyn yr oedd yn ei gynnig sef ceisio canfod diddordeb lleol ar gyfer addasu tai i bobol leol eu prynu neu rentu a chael y Cyngor Sir i wneud archwiliad o'r niferoedd o dai gweigion sydd yn Ngwynedd, eu prynu er mwyn eu haddasu ar gyfer pobl leol a sefydlu cronfa i gydberchnogi'r tai yma ar y cyd gyda phobol leol.
Penderfyniad: Pasiwyd y cynnig.
Cynnig: Rhys Tudur Eilio: Mared Llywelyn Williams

**8. Cynnig Mynd ar ofyn y Cyngor Sir (e-bost dyddiedig 8 Hydref) –** Rhys Tudur
Cynnig yw hwn yn gofyn i Gabinet y Cyngor Sir gydweithio gyda CTN i ddarparu gwybodaeth ar dai gweigion ac ail gartrefi yng Ngwynedd, rhyddhau gohebiaeth ar drafodaethau rhwng y Cabinet a'r Llywodraeth i ddangos eu bod yn delio gyda'r mater a gofyn am ymateb i'r llythyrau a anfonwyd atynt gan CTN drost yr wythnosau diwethaf.
Penderfyniad: Pasiwyd y cynnig.
Cynnig: Rhys Tudur Eilio: Caren Jones

**9. Cytiau Glan y Môr, Nefyn -** Clerc
Cafwyd diweddariad gan y clerc. Mae Elfed Roberts wedi hel y sbwriel a gweddillion y cytiau oedd dal ar y traeth, mae Dyfan Humphreys ac Tomos Dobson wedi symud dau gwt oddi yno ac mae Gareth Williams am symud y trydydd cwt a'r hen 'sgaffolding' oddi yno y penwythnos nesaf. Gan fod pawb wedi gwirfoddoli i wneud y gwaith yma gofynwyd i'r clerc ddiolch iddynt.

**10. Ceisiadau Cynllunio**

- **C20/0511/42/LL** – Kimberly, Lôn Penrallt, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd. – Balconi.
  Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad ond gyda amod nad yw uchder y gwrych sydd o amgylch safle'r cais sef y gwrych sydd rhwng safle'r cais a llwybr yr arfodir a'r gwrych sydd rhwng safle'r cais a'r lôn sydd yn mynd at Penrhyn Nefyn ddim yn cael ei dorri lawr ddim llai.
  Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Mared Llywelyn Williams
- **C20/0766/42/DT –** Cynfi Rhodfa'r Môr, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd. LL53 6EB – Estyniad uwchben modurdy presennol.
  Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.
  Cynnig: Sharon Williams Eilio: Rhys Tudur
- **C20/0748/42/CT –** Swn y Don, Porthdinllaen, Pwllheli, Gwynedd. LL53 6DB – Gwaith i goed o fewn Ardal Gadwraeth.
  Penderfyniad: Mae ymateb wedi cael ei anfon i'r Adran Gynllunio gan fod y 21 diwrnod wedi dod i ben – Dim gwrthwynebiad.

**Ceisiadau Diweddarach**

- **C20/0690/42/DA –** Maes Parcio Moreia Nefyn, Stryd Moreia, Nefyn, Pwllheli. LL53 6HG – Diwygiad ansylweddol i'r cynlluniau a gymeradwywyd gan ganiatad cynllunio C20/0364/42/LL ar gyfer maes parcio er mwyn galluogi trefniant safle amgen.
  **Penderfyniad:** Gan nad yw'r dyddiad ymateb ddim tan y 26ain o Hydref penderfynwyd manteisio ar yr amser i gymharu'r ddau gynllun a dod i benderfyniad.
  Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Rhys Tudur

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Catrin Roberts • 07880 737298

**11. Gohebiaeth a dderbyniwyd:**

- O Ddrws I Ddrws

Ni chafwyd gwirfoddolwr i fod yn gynrychiolydd CTN ar Fwrdd Rheoli O Ddrws I Ddrws.
Penderfyniad: Y clerc i anfon e-bost at bawb nad oedd yn y pwyllgor i ofyn am wirfoddolwr.
Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Catrin Roberts

- Llywodraethwyr Ysgol Nefyn

Fe enwebwyd Lleucu Jones fel cynrychiolydd CTN ar Gorff Llywodraethwyr Ysgol Nefyn ac fe dderbyniodd y swydd.
Cynnig: Gruffydd Wililams Eilio: Catrin Roberts

**12. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc - £935.24
- John Gwynfor Jones – Angladd Emyr Williams - £425.00
- Ashley Hughes - £122.20
- D. M. Parry – pedwerydd taliad Mynwent Nefyn - £850.00 & ail daliad Mynwent Penniel - £135.00 = £985.00
- N Power – Siop Siarad – taliad dwythaf yr hen gontract - £33.20
- Cliff Hughes – Taliad 6 llwybrau - £825.00 & gwaith ychwanegol - £181.00 = £1006.00
- Mark Hughes – Gwaith tu allan i Llyfrgell Nefyn - £60.00
- Rhys Jones – Gosod y 3 cabinet I'r deffibs - £405.39

Penderfyniad: Talu pob anfoneb
Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Rhys Tudur

**Anfonebau sydd wedi cael eu talu:**

- Defib Store – 3 cabinet i'r 3 deffibs CTN - £1520.34
- Awyr Las – 3 batri a padiau i'r 3 deffibs CTN - £255.00
- N Power – Trydan Siop Siarad (Gorffennaf Awst & Medi) - £22.12
- Cyngor Gwynedd – Cytundeb Glanhau Llyfrgell Nefyn 2019-2020 - £1694.59
- Snowdonia Fire & Security – Cynnal a chadw'r larwm diogelwch - £109.20

**13. Taliadau wedi eu derbyn:**

Dim.